

Dr JJ de Gorter
Spire Healthcare Limited
Spire Healthcare
Blwch SP 62647
120 Holborn
Llundain
ECIP IJH

Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8163
Ffacs: 0300 062 8387
E-bost: HIWinspections@wales.gsi.gov.uk

Annwyl Dr deGorter,

17^{eg} Gorffennaf 2014

Ynghylch: Ymweliad dirybudd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ag Ysbyty Spire Iâl, Wrecsam ar 2 Gorffennaf 2014

Fel y gwyddoch cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ymweliad dirybudd ag Ysbyty Spire Iâl, Wrecsam ar 2 Gorffennaf 2014.

Braslun o'r lleoliad Gofal Iechyd

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gynnal ymweliad dirybudd ag Ysbyty Spire Iâl, Wrecsam ar 2 Gorffennaf 2014.

Lleolir Ysbyty Spire Iâl ar gyrion canol tref Wrecsam yn gyfagos i ysbyty Ymddiriedolaeth GIG Maelor Wrecsam, a gellir ei gyrraedd â char a thrafnidiaeth gyhoeddus ac mae ganddo ddigon o gyfleusterau parcio.

Mae'r ysbyty yn adeilad modern un llawr a chanddo mynediad digonol i'r anabl. Mae gan yr ysbyty dderbynfa gyfforddus, ystafelloedd triniaeth ac ymgynghori preifat, ystafelloedd radioleg, ystafelloedd theatr ac adfer, adran arlwyg a swyddfeydd.

Roedd ardal y ward yn gallu derbyn hyd at 27 o gleifion preswyl. Roedd yr holl ystafelloedd preifat yn ystafelloedd sengl ac eithrio un, a oedd yn cynnwys dau wely. Roedd pob ystafell yn cynnwys cyfleusterau ymolchi, teledu, ffôn a systemau galw nyrsys. Roedd gan yr ysbyty gyfarpar priodol ar gyfer y gwasanaethau roedd yr ysbyty yn eu darparu.

Roedd gwasanaethau cleifion allanol ar gael i blant o bob oedran. Roedd llawdriniaeth yn cael ei darparu yn yr ysbyty i blant dros ddeuddeg oed yn unig. Mae mynediad i'r ysbyty am driniaeth ar gael yn dilyn cyfeiriad gan feddyg teulu.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelwyd bod yr ysbyty wedi'i addurno mewn ffordd ddymunol, ac roedd yn ymddangos yn lân.

Roedd y Datganiad o Ddiben ac Arweiniad y Cleifion ar gael yn y dderbynfa ac ym mhob ystafell wely. Roedd hefyd amrywiaeth o wybodaeth ar gael ar gyfer cleifion. Roedd hefyd rhesel daflenni/wybodaeth ar gael yn y dderbynfa a oedd yn dal ystod o daflenni cyffredinol ynglŷn ag Ysbyty Spire lâl ac yn disgrifio triniaethau a chyfarwyddiadau ôl-driniaethol.

Roedd arolwg holiadur cleifion blynyddol yn cynnwys adborth cleifion. Adolygwyd y sylwadau ac addaswyd arferion yn ôl yr hyn a nodwyd. Roedd canlyniadau'r arolwg o fodlonrwydd cleifion ar gael ar wefan Ysbyty Spire lâl. Roedd ystod eang o bolisiâu corfforaethol a lleol a gweithdrefnau ar gael a oedd yn adlewyrchu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf.

Roedd pob claf yn cael ymgynghoriad preifat gyda'u hymgyngorydd penodol cyn cael eu derbyn i'r ysbyty ac yn mynychu clinig cynfyndiad. Cafwyd cydsyniad ar sail penderfyniad cytbwys ar gyfer pob gweithdrefn. Roedd llwybrau gofal ar gael ar gyfer llawdriniaethau unigol. Anogwyd cleifion i ymwneud â'u gofal a'u triniaeth.

Roedd cofnodion clinigol yn cael eu cadw a'u storio mewn ffordd briodol gydag adroddiadau cyfoes (cofnodion yn cael eu diweddarau'n syth) o ofal cleifion.

Adolygwyd sampl o daflenni presgripsiwn. Nodwyd bod dau flwch gwahanol wedi cael eu trosysgrifo. Argymhellwyd y dylai'r aelod o staff lofnodi'r newidiadau â llythrennau cyntaf ei enw a'i ddyddio pan fydd hyn yn digwydd.

Cynhaliwyd archwiliad meddyginiaeth/presgripsiwn bob pythefnos. Coladwyd y canlyniadau, ac fe'u lledaenwyd drwy amryw grwpiau rheoli a chlinigol. Efallai byddai'n ddefnyddiol pe bai tîm y ward yn adolygu dulliau ychwanegol o gyflwyno canlyniadau archwiliadau, h.y. eu cyflwyno i fforwm y staff neu i'r Pwyllgor Ymgynghorol Meddygol.

Roedd rhaglen hyfforddiant cynefino drwyadl ar gyfer cyflogeion newydd ac roedd rhaglen addysg er mwyn sicrhau cymhwysedd gofal critigol. Yn ddiweddar ychwanegwyd diweddariad gofynnol i'r hyfforddiant, ac e-hyfforddiant meddyginiaeth, at y casgliad hwn o raglenni addysg. Roedd yr holl staff yn ymwybodol o'r polisiâu a'r gweithdrefnau ac roedd aelodau o staff wedi darllen a chytuno i gydymffurfio â phroses gofnodi.

Yn ddiweddar, bu prinder staff ac o ganlyniad defnyddiwyd staff asiantaeth. Fodd bynnag, roedd rhaglen hyfforddiant cynefino glir ar gyfer y staff hyn a cheisiodd yr ysbyty sicrhau bod yr un staff yn cael eu defnyddio er mwyn sicrhau dilyniant gofal. Cafwyd anhawster yn llenwi swyddi gwag ond roedd cynllun i hysbysebu ar waith a chafodd swyddi nysio eu hailstrwythuro.

Arsylwyd ar agweddau a dull gweithredu aelodau o staff a nodwyd eu bod yn gwrtais, yn broffesiynol ac yn frwdfrydig. Gwelwyd tystiolaeth o hyn yn y sylwadau cadarnhaol a roddwyd gan gleifion ar bob agwedd o'r ddarpariaeth gwasanaethau.

Roedd presenoldeb a chyfraniad uwch reolwyr wrth ddarparu gwasanaethau yn gadarnhaol ac fe'i hadlewyrchwyd yn y gwaith tîm drwy gydol yr ysbyty.

Mae cydlynedd cwynion yn arwain y gwaith o ymdrin â chwynion a chafwyd saith cwyn yn ystod y tri mis diwethaf, ac ymdriniwyd â phob un ar y lefel gyntaf.

Anfonwyd cofnodion chwarterol o gwynion i'r grŵp llywio clinigol. Ymdriniwyd â chanlyniadau ac felly roedd modd iddynt lywio a/neu newid arferion. Hysbyswyd y staff drwy system o adrodd digwyddiadau, cyfarfodydd wardiau ac arfarniadau. Roedd polisi a gweithdrefn ar gael ar gyfer staff a fynnai ddatgelu pryderon, a rhoddwyd mwy o gyfleoedd i drafod unrhyw bryderon mewn adolygiadau unigol o berfformiad.

Safle, Amgylchedd a Chyfleusterau

Gwnaeth yr arolygiad ffocysu ar faterion y tynnwyd sylw atynt yn yr arolygiad diwethaf. Cafodd materion cynnal a chadw a oedd yn ymwneud â pherimedr lloriau'r ystafelloedd gwely eu cwblhau, a gwnaed atgyweiriadau i loriau'r theatrau.

Cafodd materion a oedd yn ymwneud â defnyddio peiriannau Laser eu datrys. Penderfynwyd mai'r peiriant Vari-Lase yn unig a fyddai'n cael ei ddefnyddio, ac roedd gwybodaeth ynghylch ei anghenion cynnal a chadw yn cadarnhau bod y cyflenwyr yn ei wasanaethu bob dwy flynedd, yn unol ag argymhellion y gwneuthurwr.

Cyhoeddwyd Rheolau Lleol newydd, ac roedd angen llofnod un aelod o staff ar y rhain. Bydd hyn yn cael ei wneud pan fydd yr aelod o staff yn dychwelyd i'r gwaith. Cafodd protocolau eu paratoi, ac ar ôl cywiro ychydig o gamlythreniadau, roedd y rhain yn barod i gael eu cadarnhau. Rhoddwyd cyfarwyddyd i ddau o'r personél ar y safle ynghylch hyfforddiant.

Roedd contract ar waith ar gyfer Cynghorwr Diogelwch Laserau, yn ddilys hyd at fis Mawrth 2015, ac roedd adroddiad Cynghorwr Diogelwch Laserau ar gael, yn dilyn ymweliad â'r safle ym mis Mai 2014. Nodwyd bod golau rhybuddio ar gyfer y laser wedi cael ei osod uwchben drws mynediad yr ystafell laser. Ar y pryd, roedd y laser yn cael ei storio mewn ardal dan glo wrth gefn ardal y plant, a byddai'n cael ei symud i'r ardal driniaeth yn ôl yr angen.

Roedd copi cyfredol o dystysgrif ailadroddiad gyfnodol ar gael ar gyfer gosodiad y gwifrau trydanol, a chyda threfniadau contract newydd, byddai 20% o'r gosodiad yn cael ei gwmpasu bob blwyddyn, dros gylchred o bum mlynedd.

Cafwyd rhywfaint o anhawster yn dod i hyd i sinc fwcad newydd yn lle'r hen un yn y storfa oddi ar goridor y gegin, ond cadarnhawyd drwy e-bost bod hyn wedi cael ei gwblhau'r diwrnod ar ôl yr arolygiad.

Tynnodd yr Ymweliad Sylw at y Meysydd Canlynol

- Roedd y grŵp cleifion yn gadarnhaol o ran eu hadborth ar y staff a'r gofal a dderbyniwyd
- Roedd y gwaith papur ar gyfer rheolaeth glinigol a chyfarfodydd archwiliad clinigol yn addysgiadol ac yn ystyried y cyfarfodydd a gweithredoedd blaenorol
- Roedd ystod o staff ar ddyletswydd ac roedd systemau er mwyn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf o ran arferion
- Roedd polisiau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu bob tair blynedd fan bellaf yn unol â pholisiau corfforaethol. Cafodd pob polisi gweithredol ei ddilysu'n gorfforaethol gan gyfarwyddiaethau perthnasol ac ymgynghorwyr arbennig a oedd yn arbenigo mewn meysydd penodol, er mwyn sicrhau cydymffurfiant â deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol cyfredol.
- Roedd strategaeth glinigol a chorfforaethol drwyadl a oedd yn cael ei gweithredu drwy system cardiau sgorio sy'n monitro perfformiad, yn gosod targedau, ac yn rhannu arferion gorau
- Darparwyd hyfforddiant gofynnol gan ddefnyddio system ar-lein a oedd yn sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant blynyddol. Roedd hyfforddiant ar reoli meddyginiaeth ar y gweill
- Mae materion cynnal a chadw a chyfleusterau yn dal i gael eu cofnodi'n drwyadl gyda systemau cofnodion cyfrifiadurol

Rhoddyd adborth ar lafar drwy gydol yr ymweliad ac ar ei ddiwedd.

Ni nodwyd unrhyw broblemau yn ystod yr ymweliad hwn.

Argymhellion Arfer Da:

- Hyfforddiant rheoli meddyginiaeth ar gyfer aelodau o staff sydd ynghlwm â rheoli meddyginiaeth
- Cyflwyno canlyniadau archwiliadau meddyginiaeth mewn gwahanol fforymau er mwyn gwella a mewnosod canlyniadau a chynyddu ymwybyddiaeth staff
- Angen llofnod pob aelod o staff sydd ynghlwm â throsglwyddo gofal rhwng adrannau ar gofnodion cleifion

Hoffai Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ddiolch i holl aelodau'r staff am eu hamser a'u cydweithrediad yn ystod yr ymweliad.

Croeso i chi gysylltu â mi yn ddi-oed i drafod cynnwys y llythyr hwn.

Yn gywir



Phil Price
Rheolwr Archwilio